

## A. YR ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT


Ar ôl ei gwblhau, rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i fewnflwch [CRIA@llyw.cymru](mailto:CRIA@llyw.cymru)

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#) a'i [Brotocolau Opsiynol](#) wrth iddynt arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio'r asesiad i lywio cyngor gweinidogol, a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Pan fydd penderfyniad wedi cael ei wneud, rhaid hefyd gyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

---

*Sylwch fod gennym Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant (CRAG) sefydledig, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Phlant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Cysylltwch â'r Gangen Plant [CRIA@llyw.cymru](mailto:CRIA@llyw.cymru) am ragor o wybodaeth.*



---

*I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, gweler y [Llawlyfr Staff ar Hawliau Plant](#) neu cysylltwch â'r Gangen Plant drwy e-bostio [CRIA@llyw.cymru](mailto:CRIA@llyw.cymru)*

---

## 1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad rydych yn ei hasesu?

Diwygiodd Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 y meini prawf cymhwyso ar gyfer yr Hawl i Reoli. Yn flaenorol, dim ond eiddo yr oedd hyd at 25% ohono'n cael ei ddefnyddio at ddibenion amhreswyl a oedd yn gymwys ar gyfer yr hawl. Cynyddodd y Ddeddf y terfyn hwn ar ddefnydd amhreswyl i 50%. Os nad yw'r Erthyglau Enghreifftiol presennol ar gyfer Cwmni Hawl i Reoli (RTM) (Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) 2011) yn cael eu diwygio ar ôl i'r newid i'r terfyn ar ddefnydd amhreswyl ddechrau, gallai hyn ganiatáu i landlordiaid sy'n meddu ar rannau amhreswyl o eiddo sy'n arfer yr Hawl i Reoli feddu ar hyd at 50% o hawliau pleidleisio'r cwmni.

Bydd Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2025 ('Rheoliadau Diwygio 2025') yn capio'r pleidleisiau y caiff landlord eu harfer i draean o'r pleidleisiau y caiff tenantiaid cymwys eu harfer. Bydd capio hawliau pleidleisio landlordiaid i draean yn caniatáu i lesddeiliaid arfer mwyafrif absoliwt, os ydynt yn dewis pleidleisio'n unfrydol. Bydd y rheoliadau felly'n diogelu gallu aelodau-denant cwmni RTM i arfer mwyafrif dros aelodau-landlord, a fyddai fel arall yn cael eu tanseilio.

Mae hefyd ddau amwysedd yn nhestun y gyfraith bresennol a fydd yn cael sylw. Bydd ystyr 'lesoedd' yn yr Erthyglau Enghreifftiol yn cael ei egluro er mwyn nodi ei fod yn cyfeirio at 'lesoedd hir' yn unig, gan fod yr ymadrodd hwnnw'n cael ei ddiffinio yn Neddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002. At hynny, ni ddylai dyrannu un bleidlais i unrhyw landlord o dan les yn yr Erthyglau Cymdeithasu Enghreifftiol fod yn berthnasol ond i rydd-ddeiliad nad yw pleidlais wedi cael ei dyrannu iddo fel arall; ni ddylai fod yn berthnasol i unrhyw landlordiaid canol.

Bydd Rheoliadau Diwygio 2025 yn effeithio'n uniongyrchol ar gwmnïau RTM presennol, nid ar y rhai y gellir eu ffurfio mewn adeiladau defnydd cymysg sydd newydd gymhwyso. Nid yw'r newidiadau hyn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar blant gan nad yw pobl o dan 18 oed yn gallu meddu ar deitl eiddo, ac felly ni allant fod yn aelodau o gwmnïau RTM. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall aelodau-denant o gwmnïau RTM gynnwys rhieni a gofalwyr ac y gall plant fyw yn yr eiddo. Felly, gallai Rheoliadau Diwygio arfaethedig 2025 effeithio arnynt yn anuniongyrchol.

Nid ydym yn rhagweld y byddai unrhyw effaith andwyol ar hawliau plant neu bobl ifanc. Mae'n bosibl y bydd effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar blant o gofio mai'r polisi y tu ôl i gwmnïau RTM yw y dylai penderfyniadau dan arweiniad tenantiaid sicrhau'r canlyniad gorau i breswylwyr, gan obeithio gwella fforddiadwyedd costau cynnal a chadw ac ati a chreu amgylchedd byw gwell.

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

- Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol chi? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.
- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut rydych yn rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau<sup>1</sup> o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisiâu sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.
- Pa waith gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.<sup>2</sup>

Mae lesddaliadau yn cyfrif am oddeutu 16% o'r holl eiddo yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i ffigur bras iawn o 235,000 o gartrefi. Mae Data Prisiau a Dalwyd y Gofrestrfa Tir yn dangos bod lesddaliadau yn cyfrif am 12% o'r holl drafodiadau eiddo yng Nghymru, gyda'r mwyafrif o'r trafodiadau hyn (64.3%) yn ymwneud â fflatiau. Er nad yw'n bosibl dweud faint o'r rhain sydd â lesddeiliaid preswyl yn byw ynddynt, mae'n amlwg y bydd plant yn byw mewn eiddo lle mae lesddeiliaid eisoes wedi cael yr RTM neu'n ystyried gwneud hynny. Ni fu unrhyw ymchwil nac ymgysylltiad penodol â phlant a phobl ifanc i ddeall effaith y newid hwn. Ni fyddai ceisio adnabod y plant yr effeithir arnynt ac ymgynghori â hwy yn gymesur o ystyried natur dechnegol y newid hwn i warchod bwriad presennol y polisi a natur anuniongyrchol unrhyw effaith.

---

<sup>1</sup> Er enghraifft, efallai y byddwch yn ystyried effeithiau gwahanol eich polisi ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tloidi; plant du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant â phrofiad o ofal; plant LHDTQ+. Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac nad un profiad unffurf a fydd gan bawb o fewn y carfanau hyn.

<sup>2</sup> Dywed Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod gan blant yr hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

## Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Mae Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2025 yn gwneud diwygiadau cyfyngedig i'r Erthyglau Enghreifftiol ar gyfer RTM – diwygiadau sy'n weithredol ac yn dechnegol eu natur – er mwyn diogelu bwriad polisi presennol yr Hawl i Reoli drwy gadw gallu aelodau-denant cwmni RTM i arfer mwyafrif dros yr aelodau-landlord. Ni ragwelir y bydd effaith andwyol ar hawliau plant neu bobl ifanc o ganlyniad i'r newidiadau hyn, gan eu bod yn cadw'r sefyllfa bolisi bresennol. Ni fu unrhyw ymchwil na gwaith ymchwil penodol gyda phlant a phobl ifanc i ddeall effaith y newid hwn. Ni fyddai ceisio nodi'r plant yr effeithir arnynt ac ymgynghori â nhw yn gymesur o ystyried natur dechnegol y newid hwn i warchod bwriad presennol y polisi a natur anuniongyrchol unrhyw effeithiau.

Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotoolau Dewisol? Gweler yr [erthyglau](#) i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

Erthyglau CCUHP neu Brotool Dewisol	Gwella (X)	Herio (X)	Esboniad
Erthygl 1  Mae gan bawb dan 18 oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.	x		Nid ydym yn credu y bydd hyn yn cael effaith wahaniaethol yn seiliedig ar oedran plentyn neu berson ifanc. Bwriad Rheoliadau Diwygio 2025 yw cynnal bwriad polisi'r Hawl i Reoli a fydd yn diogelu gallu aelodau-denant cwmni RTM i arfer mwyafrif dros yr aelodau-landlord.
Erthygl 2  Mae'r Confensiwn yn gymwys i bawb, beth bynnag fo'u hil, eu crefydd a'u galluoedd, yr hyn maent yn ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag	x		Nid ydym yn credu y bydd hyn yn cael effaith wahaniaethol yn seiliedig ar hil, crefydd na galluoedd pobl, yr hyn maent yn ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y maent yn dod ohono. Bwriad Rheoliadau

o deulu y maent yn dod ohono.			Diwygio 2025 yw cynnal bwriad polisi'r Hawl i Reoli a fydd yn diogelu gallu aelodau-denant cwmni RTM i arfer mwyafrif dros yr aelodau-landlord.
<p>Erthygl 12</p> <p>Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.</p>	X	X	Ni fu unrhyw ymchwil na gwaith ymchwil penodol gyda phlant a phobl ifanc i ddeall effaith y newid hwn. Ni fyddai ceisio nodi'r plant yr effeithir arnynt ac ymgynghori â nhw yn gymesur o ystyried natur dechnegol y newid wedi'i wneud gan Reoliadau Diwygio 2025 – a fydd yn diogelu gallu aelodau-denant cwmni RTM i arfer mwyafrif dros yr aelodau landlord – a natur anuniongyrchol yr effaith.
<p>Erthygl 27</p> <p>Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn</p>	X		Pe bai aelodau-denant mewn adeilad defnydd cymysg sy'n cynnwys hyd at 50% o ofod amhreswyl yn ffurfio Cwmni Hawl i Reoli, ac yna'n dewis pleidleisio'n unfrydol wrth wneud penderfyniadau am reoli'r adeilad, byddent yn meddu ar ragor o reolaeth ac yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu hamodau byw. Gallai hyn fod o fudd anuniongyrchol i unrhyw blant dibynnol sy'n byw yn yr eiddo. Bydd y newid i hawliau pleidleisio yn caniatáu i lesddeiliaid eiddo sydd newydd gymhwyso allu arfer yr hawl yn yr un modd â'r rhai wedi'u cymhwyso o dan y terfyn amhreswyl o 25%, drwy ganiatáu i denantiaid yn yr eiddo hwn arfer mwyafrif dros yr aelodau-landlord.

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

### 3. Cyngor i weinidogion a'u penderfyniad

- Sut bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn cyfrannu at eich cyngor i Weinidogion?
  - *Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'ch Dirprwy Gyfarwyddwr lofnodi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.*
  - *Dylai canfyddiadau eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu cynnwys yn eich cyngor gweinidogol i lywio eu penderfyniad.*

### 4. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*
- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe eich adran i'w cyhoeddi.*
- *Yn ogystal, rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi ei gwblhau i flwch post [CRIA@llyw.cymru](mailto:CRIA@llyw.cymru).*

### 5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

Ddim yn berthnasol

### 6. Monitro ac Adolygu

Mae'n hanfodol ailystyried eich Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant er mwyn nodi a gafodd yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol eu gwireddu, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Pan fyddwch yn bwrw ymlaen ag is-ddeddfwriaeth, ni fydd yn ddigon dibynnu ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y ddeddfwriaeth sylfaenol; bydd angen ichi ddiweddarau'r Asesiad i ystyried sut y gallai manylion y cynigion yn y rheoliadau neu'r canllawiau effeithio ar blant.

Gall yr arweinydd polisi ailedrych ar y fersiwn o'u Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gyhoeddwyd, ei ailenwi'n adolygiad o'r Asesiad gwreiddiol, a diweddarau'r dystiolaeth o effaith. Dylid cyflwyno'r Asesiad Effaith a Adolygwyd i Weinidogion gydag unrhyw gynigion ynghylch diwygio'r polisi, yr arfer neu'r canllawiau. Dylid hefyd cyhoeddi'r adolygiad hwn o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

- Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.
- Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r dull o'i roi ar waith?

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adolygiad ôl-weithredu ar ôl gweithredu Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024, a ysgogodd y newid i erthyglau enghreifftiol a nodir yn y rheoliadau hyn. Nid oes unrhyw adolygiad penodol arall wedi'i gynllunio. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei adolygu fel rhan o'r astudiaeth ôl-weithredol.